

Oeddet ti'n gwybod bod arian ar gael drwy nifer o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg os wyt ti'n astudio rhan o dy gwrs yn Gymraeg?
Nid benthyciad yw'r arian; does dim rhaid ei dalu yn ôl!



Ysgoloriaeth Cymhelliant

Faint: £500 y flwyddyn dros hyd y cwrs

Pwy: Myfyrwyr sydd yn cychwyn yn y brifysgol yn Medi/Hydref 2025 ac sy'n astudio o leiaf 33%/40 credyd o'u cwrs yn Gymraeg mewn UNRHYW BWNC.

Cyrsiau: Unrhyw gwrs sy'n cynnig 33% o'r cwrs yn Gymraeg. Defnyddia ein chwilytydd cyrsiau i weld a yw dy gwrs di ar y rhestr.



Ysgoloriaeth Meddygaeth

Faint: £500 y flwyddyn dros hyd y cwrs.

Pwy: Myfyrwyr sy'n astudio cwrs Meddygaeth mewn prifysgol yng Nghymru, ac sy'n astudio o leiaf 33%/40 credyd o'u cwrs yn Gymraeg.



Ysgoloriaeth Milfeddygaeth 'Defi Fet'

Faint: £500 y flwyddyn dros 5 mlynedd (cyfanswm o £2,500)

Pwy: Myfyrwyr Milfeddygaeth Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (RVC). Yn ystod eu hamser ym Mhrifysgol Aberystwyth, rhaid i'r myfyrwyr ddilyn o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy'r Gymraeg. Disgwylir i'r myfyrwyr hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, cynorthwyo â dysgu Cymraeg i'w cyd-fyfyrwyr, cwblhau asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg ac ymgymryd â mwy na 50% o'u Hastudiaethau Efrydiau Allanol Hwsmonaeth Anifeiliaid (AHEMS) ar leoliadau a ffermydd Cymraeg. Yn ystod eu hamser yn yr RVC, rhaid i'r myfyrwyr ymgymryd â mwy na 50% o'u Hastudiaethau Efrydiau Allanol Clinigol (CEMS) yng Nghymru mewn amgylchedd Cymraeg neu ddwyieithog Cymraeg/Saesneg.





Ysgoloriaeth Nyrsio Gwanwyn

Faint: £500 y flwyddyn am 3 blynedd (cyfanswm o £1,500)

Pwy: Myfyrwyr Nyrsio sydd yn cychwyn yn y brifysgol yng Ngwanwyn 2024 ac sy'n astudio o leiaf 33%/40 credyd o'u cwrs Nyrsio yn Gymraeg

Cyrsiau: Cwrs Nyrsio sy'n cynnig 33% o'r cwrs yn Gymraeg. Defnyddiwch y chwilotydd cyrsiau i weld a yw eich cwrs chi ar y rhestr



Bwrsariaeth Goffa Llŷr Roberts 2024

Bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yw hon, ac mae ar agor i unrhyw bwnc. Bydd y bwrsariaeth yn noddi taith sydd yn gysylltiedig ag astudiaethau'r myfyriwr.

Faint: Bwriedir dyfarnu hyd at 4 bwrsariaeth pob blwyddyn, fydd werth £500 yr un.

Pwy: Myfyrwyr israddedig sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae ar agor i unrhyw bwnc.



Bwrsariaeth Gareth Pierce

Er cof am ei gyn Brif Weithredwr, mae CBAC wedi creu Bwrsariaeth Gareth Pierce i gefnogi myfyrwyr sydd am astudio cwrs gradd Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg. Y Coleg Cymraeg sy'n gweinyddu'r bwrsariaethau ar ran CBAC.

Faint: £3,000 am y flwyddyn gyntaf yn unig

Pwy: Myfyrwyr sydd am astudio cwrs gradd Mathemateg ac am astudio o leiaf 33% o'u cwrs yn Gymraeg



Prif Ysgoloriaeth

Faint: £1,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd (cyfanswm o £3,000)

Pwy: Myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 66%/80 credyd y flwyddyn o'u cwrs yn Gymraeg ac yn cychwyn yn y Brifysgol ym Medi 2025.

Cyrsiau: Defnyddiwch ein chwilotydd cyrsiau i weld a yw eich cwrs chi ar y rhestr

Cyfnod ymgeisio: 10 Medi - 24 Ionawr

Sut i ymgeisio: Mae'r ffurflen gais ar agor nawr.

Am fwy o wybodaeth ewch i dudalen

Ysgoloriaethau ar wefan

colegcymraeg.ac.uk



**COLEG CYMRAEG
CENEDLAETHOL**

